Adroddiad Bioamrywiaeth Cyngor Cymuned Llanfair Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 - Adran 6.

Dyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau mae Cynghorau Tref a Chymuned yn ddarostyngedig i'r Ddyletswydd Cydnerthedd Bioamrywiaeth ac Ecosystemau o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. O dan y Ddeddf hon, rhaid i bob awdurdod cyhoeddus, cyn diwedd 2019 a chyn diwedd pob trydedd flwyddyn ar ôl 2019, gyhoeddi adroddiad ar yr hyn y maent wedi'i wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd hon. Nod yr adroddiad hwn yw amlinellu sut mae Cyngor Cymuned Llanfair yn cefnogi bioamrywiaeth yn ei swyddogaethau. Mae'r Cyngor Cymuned yn rheoli'r fynwent gyhoeddus, yn ogystal â nifer o lwybrau cyhoeddus yn y gymuned.

Nod y polisi hwn yw cynnal a gwella bioamrywiaeth yr ardal lle bo'n bosibl. Bydd y Cyngor yn dilyn canllawiau gan gyrff arbenigol fel Cyfoeth Naturiol Cymru a Bywyd Planhigion. Bydd y Cyngor yn cydweithio â Swyddog Bioamrywiaeth Parc Cenedlaethol Eryri. Unrhyw driniaeth clymog Japan sydd i'w chymeradwyo gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Fynwent Gyhoeddus

Nid yw torri'r glaswellt yn digwydd rhwng mis Hydref ac Ebrill er mwyn annog blodau gwyllt ac ni ddefnyddir cemegau o unrhyw fath.

Llwybrau Cyhoeddus

Mae amryw o lwybrau cyhoeddus yn y gymuned a mae rhain yn cael eu torri rhwng misoedd Ebrill a Hydref ac fel arfer maent yn cael eu torri ddwywaith yn ystod y cyfnod hwn ac ni chaniateir defnyddio cemegau ar unrhyw lwybrau troed. Mae llwybrau troed nad ydynt yn cael eu defnyddio yn cael tyfu yn wyllt er mwyn annog bywyd gwyllt a phlanhigion.